Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

12 Gorffennaf 2019

Annwyl Jeremy

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

Diolch am eich llythyrau diweddar ynglŷn â'ch presenoldeb yng Nghydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a Chydbwyllgor y Gweinidogion (Ewrop) ar 9 Mai a 13 Mehefin 2019 yn y drefn honno. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r llythyrau hyn, ac yn eu cydnabod o ran y cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol (IIRA).

Fodd bynnag, nodwn eich bod yn dweud yn y ddau lythyr y byddwch yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad y cyfarfodydd, ac nid ydym wedi cael unrhyw fanylion pellach hyd yn hyn. Yn fwy cyffredinol, er ein bod hefyd wedi cael nifer o lythyrau gan eich cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i roi gwybod i ni am gyfarfodydd sydd i ddod (sy'n berthnasol i gwmpas yr IIRA), nid ydym wedi cael crynodebau ysgrifenedig o'r cyfarfodydd hynny. Rydym yn cydnabod bod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi rhai datganiadau ysgrifenedig i holl Aelodau'r Cynulliad yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, mae paragraff 14 o'r IIRA yn darparu y bydd Llywodraeth Cymru:

> "yn darparu crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac unrhyw bwyllgor perthnasol arall o'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y mae'n ymarferol ac, os yn bosibl, o fewn pythefnos."

Felly, byddem yn ddiolchgar o gael crynodebau ysgrifenedig o'r cyfarfodydd perthnasol yr ydych chi a Gweinidogion Cymru wedi eu mynychu, cyn gynted ag y bo modd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn olaf, hoffem ddiolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2019 ynglŷn â'r trafodaethau parhaus ynghylch yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a Fframweithiau Cyffredin. Rydym yn croesawu'r diweddariad hwn mewn perthynas â gwaith Llywodraeth Cymru ar y cyd â llywodraethau eraill y DU.

Yn gywir

Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English